

# Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd  
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,

Nos Lun, 26 Chwefror 2018

am 7 yr hwyr.

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau.

### Presennol:

Mr Adrian Jones-Cadeirydd **AJ**, Ms JA Ferry **JAF**, Mrs Linda Jones **LJ**, Dr Edward Jones **EJ**, Mr Victor Owen **VO**, Mr OG Roberts **OGR**, Miss Jane Ann Roberts **JAR**, Mrs EAB Thomas **EABT**, Cynghorwr Ken Hughes **KH**, Ms RW Owen **clerc**.

**Ymddiheuriadau:** Mrs Bethan Hughes.

## 2. Datgan Diddordeb: **KH** ynglyn ac eitem 5.

## 3. Cofnodion Ionawr 2018 ac unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Nodwyd fod pawb wedi derbyn copiau o'r cofnodion. **AJ** yn cynnig eu bod yn gywir, **VO** yn eilio.

3.1 Derbyniwyd ymateb gan Rhun ap Iorwerth **AS** ynglyn a phroblemau cysylltiad broadband yn yr ardal, gyda cynnig cwrdd i'w drafod ymhellach. Y clerc i gysylltu i weld pa ddyddiadau fyddai ar gael.

3.2 Nododd **AJ** ei fod yn falch o weld llythur gan Mr Jac Hughes yn mynegi pryderon ynglyn a gor yrru ar y ffordd i mewn i'r pentref o Lanynghenedl. Nodwyd mae'r unig dull ar gael gan **CSYM** fyddai peintio llinellau coch ar y lon. Y clerc i wneud ymholiadau pellach gyda **CSYM**.

3.3 Nododd y clerc ei bod yn disgwl cadrnhad gan **CSYM** fod y cais i osod hysbysfwrdd wedi ei dderbyn.

3.4 Nododd y clerc gan nad oedd **CSYM** yn gallu ymgymryd a'r gwaith archwilio mewnol ei bod wedi derbyn dyfnbris o £50 gan archwilydd mewnol lleol, Mr A Foulkes. Nodwyd ddymuniad i gadw'r gwaith yn lleol, felly y clerc i gysylltu a Mr Foulkes i dderbyn y cynnig.

## 4. Maes Chwarae/FFrindiau Bodedern.

Nododd y clerc ei bod wedi derbyn dyfnbris o £1439 gan **MON CF** i barhau gyda'r gwaith yn y Maes Chwarae am y flwyddyn 18-19. Cytwunwyd i dderbyny pris ond y clerc i wneud cais i **MON CF** ysgrifennu y dyfnbris yn gymraeg yn y dyfodol.

# Cyngor Cymuned Bodedern



## 5. Materion Cynllunio.

Dim.

## 6. Gohebiaeth.

6.1 Derbyniwyd lythur gan Un Llais Cymru yn cynnig ail aelodaeth am y flwyddyn 18-19. Cytunwyd i ail aelodi unwaith eto.

6.2 Derbyniwyd gais gan CCLA i lenwi mandad arall. **AJ** a'r clerc i'w arwyddo.

6.3 Derbyniwyd holiadur gan Cynllun Gwelliant Gwynedd a Mon ynglyn a Cynllun Llesiant Drafft. Cytunwyd i anghytuno a'r blaenoriaethau, a rhoi blaenoriaeth i dai fforddiadwy a swyddi lleol ynghyd a sicrhau cyfle i bob blentyn lwyddo.

6.4 Derbyniwyd lythur gan CSYM yn gofyn cadarnhad o lecynnau agored yn yr ardal. Nodwyd efallai fod rhai manoedd heb eu labelu. Y clerc i'w ail labelu a'i ddychwelyd i CSYM.

6.5 Nododd **AJ** ei fod wedi bod mewn trafodaeth gyda aelod o'r adran gyllideb gan nad oeddent wedi derbyn ffurflen praesept gan y cyngor. Nododd y clerc nad oedd wedi derbyn ffurflen, ac ei bod wedi ysgrifennu ac ebostio CSYM i gadarnhau hyn. Gan fod y dyddiad cau wedi pasio, gorfodwyd i **AJ** wneud cais ar lafar am y praesept o £10,000 (yr un swm a'r flwyddyn flaenorol gan nad oedd cyfle wedi bod i'w drafod), a'r clerc wedi creu llythur praesept ei hun i CSYM i gadarnhau hyn. Nodwyd bryder nad oedd y ffurflen praespet wedi ei derbyn ac fel canlyniad wedi gorfodi **AJ** i wneud cais ar lafar.

Clerc/ Clerk:  
Ms. Rhian Wyn Owen,  
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,  
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940  
Nos /evening: (01407) 749 162  
Symudol /mobile: 07802 754 187  
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

# Cyngor Cymuned Bodedern



## 7 Taliadau I'w gwneud.

Mon CF	TAQ 149	Rhif siec 200038	£1439.17
Un Llais cymru	Aelodaeth 18-19	Rhif siec 200039	£152.00
CSYM	Costau Etholiad Diwrthwynebiad	Rhif siec 200040	£135.00

## 8. Unrhyw fater arall.

8.1 Nododd **VO** fod y gwaith plannu planhigion odan arwyddion y pentref wedi ei gwblhau, ac gan ei fod wedi derbyn cymorth gan Mr Tom Graham gofynnodd a fyddai modd i'r clerch ysgrifennu llythur o ddiolch iddo. Cytunwyd, gyda diolchgarwch cywiraf y cyngor.

8.2 Nododd **EJ** fod problem sbwriel ar y lon am Presaddfed. Y clerch i gysylltu a CSYM am gymorth.

8.3 Nodd **EJ** fod rhai goleadau yn y pentref wedi eu newid i LED, ond eraill ddim. Tybiwyd efallai eu bod yn cael eu newid unwaith mae'r bwlw wedi darfod.

8.4 Nododd **JF** fod twll dyfn wedi ymddangos ar y lon gyferbyn a'r Ysgol Uwchradd. Nodwyd fod twll yng ngwaelod Bron y Graig yn cael ei lenwi yn aml ond nad oedd y gwaith atgyweirio yn dal yn hir iawn. Y clerch i gysylltu a CSYM.

8.5 Nodwyd fod cyflwr difrifol ar rannau o'r A55 am Gaergybi, yn enwedig yn ardal Bryngwran/Bodedern. Nodwyd mae Cynulliad Cymru oedd yn gyfrifol am ei diogelu. Y clerch i gysylltu a Llywodraeth Cymru i fynegi pryderon digelwch.

## 9. Dyddiad cyfarfod nesaf.

26 Mawrth 2018

Clerch/ Clerk:  
Ms. Rhian Wyn Owen,  
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,  
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940  
Nos /evening: (01407) 749 162  
Symudol /mobile: 07802 754 187  
cyngorcymunedbodedern@outlook.com